WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Archwiliad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Atal derbyniadau diangen i'r ysbyty a hwyluso rhyddhau amserol – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1600A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn rhan o waith a wnaed yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, neu unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a thrydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn info.officer@audit.wales.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Ian Phillips a Gareth Jones, rheolwyd y rhaglen gan Non Jenkins dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Ceir enghreifftiau sy'n dangos sut y mae'r Cyngor wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ymarferol, fodd bynnag bydd angen iddo ystyried sut y gall ateb heriau disgwyliedig yn y tymor hwy.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Rhan Un: Canfyddiadau'r Archwiliad 6

Mae'r cam yn cyfrannu at ddiwallu anghenion tymor byr unigolion, ond mae cyfyngiadau capasiti a'r cynnydd tebygol mewn galw yn y tymor canolig a hwy yn ei gwneud yn ofynnol i ystyried ymhellach sut i ymateb i'r heriau hynny 6

Mae atal yn ganolog i'r cam hwn, ond oherwydd y galw cynyddol a'r pwysau ar adnoddau, mae'n bosibl y bydd angen dulliau eraill o wireddu buddion ataliol cynharach 7

Mae'r cam yn cyd-fynd ar lefel uchel ac mewn modd integredig ag amcanion llesiant perthnasol y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd, ond gall gwybodaeth ehangach o'r diffiniad o integreiddio yn ôl y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol helpu i wireddu buddion gweithredol 8

Mae cydweithredu â'r Bwrdd Iechyd yn ganolog i'r cam hwn a cheir enghreifftiau da o gydweithredu mewnol ac allanol effeithiol, fodd bynnag ceir cyfleoedd i gryfhau cysylltiadau â phartneriaid ehangach 9

Cesglir sylwadau ynghylch profiad pobl o'r Tîm Adnoddau Cymunedol fel mater o drefn, ond mae rhagor o le i ystyried sut y gall cynnwys rhanddeiliaid ehangach ddylanwadu ar gynllun a chyflawniad y cam yn y tymor canolig a hir 10

Rhan Dau: Ymateb y Cyngor 11

Atodiadau

Atodiad 1 – Tîm Adnoddau Cymunedol – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Canlyniadau Archwiliad SAC – Cynllun Gweithredu 2019-20 12

Atodiad 2 – Dangosyddion Cadarnhaol o'r Pum Ffordd o Weithio 15

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Pam y cynhaliwyd yr Archwiliad

1 Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf), mae gofyniad statudol ar Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) i archwilio cyrff cyhoeddus er mwyn asesu i ba raddau y maent wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth:

   a. bennu eu hamcanion llesiant, a

   b. chymryd camau i'w cyflawni.

2 Mae'r Ddeddf yn diffinio'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel gweithredu mewn modd: '…sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'.

3 Mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu adroddiad ar ei archwiliadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o leiaf blwyddyn cyn ethol pob Cynulliad. Mae'n rhaid cyhoeddi'r adroddiad cyntaf o'r fath erbyn 2020, cyn etholiad y Cynulliad yn 2021.

4 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cynnal archwiliadau ar draws 44 o gyrff sydd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf er mwyn llywio'i adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol yn ystod 2018-19 a 2019-20.

5 Mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn wedi'u seilio ar waith maes a wnaed yn ystod y cyfnod o fis Mai 2019 hyd fis Gorffennaf 2019.

6 Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canfyddiadau o'n harchwiliad o atal derbyniadau diangen i'r ysbyty a hwyluso rhyddhau amserol, cam y mae'r Cyngor yn ei gymryd i fodloni ei amcanion llesiant. Mae hefyd yn nodi ymateb cychwynnol y Cyngor i'n canfyddiadau.

### Yr hyn a archwiliwyd

7 Fe wnaethom archwilio i ba raddau y mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gyflawni'r 'cam' o weithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (y Bwrdd Iechyd) i atal derbyniadau diangen i'r ysbyty a hwyluso rhyddhau amserol.

8 Er mwyn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried y 'ffyrdd o weithio' canlynol:

Arddangosyn 1: y 'pum ffordd o weithio'

Mae'r tabl isod yn nodi'r 'pum ffordd o weithio' a ddiffinnir yn nogfen Llywodraeth Cymru 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Yr Hanfodion[1].

| Y Pum Ffordd o Weithio |
| --- |
| **Hirdymor**<br>Pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr â'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor hefyd.<br>**Atal**<br>Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag codi neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.<br>**Integredig**<br>Ystyried sut y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.<br>**Cydweithredol**<br>Gweithredu ar y cyd ag unrhyw berson arall (neu rannau gwahanol o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant.<br>**Cynnwys**<br>Pwysigrwydd cynnwys pobl â buddiant mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny yn adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei wasanaethu. |

9 Canfu ein harchwiliad fod: Ceir enghreifftiau sy'n dangos sut y mae'r Cyngor wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ymarferol, fodd bynnag bydd angen iddo ystyried sut y gall ateb heriau disgwyliedig yn y tymor hwy.

[1] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Yr Hanfodion, Llywodraeth Cymru (2015)

# Adroddiad manwl

## Rhan Un: Canfyddiadau'r Archwiliad

### Mae'r cam yn cyfrannu at ddiwallu anghenion tymor byr unigolion, ond mae cyfyngiadau capasiti a'r cynnydd tebygol mewn galw yn y tymor canolig a hwy yn ei gwneud yn ofynnol i ystyried ymhellach sut i ymateb i'r heriau hynny

#### Yr hyn y chwiliwyd amdani

10 Chwiliwyd am dystiolaeth o:

- ddealltwriaeth drylwyr o'r anghenion presennol a hirdymor a'r heriau a'r cyfleoedd cysylltiedig;
- cynllunio dros gyfnod priodol o amser;
- adnoddau wedi'u dyrannu i sicrhau buddion hirdymor; a
- threfniadau monitro ac adolygu priodol.

11 Llywiwyd ein harchwiliad hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer yr 'hirdymor' a nodwyd a ddefnyddiwyd yn rhan o'r archwiliad hwn.[2]

#### Yr hyn a ganfuwyd

12 Nodwyd y cryfderau canlynol:

- Gall ymyriadau tymor byr sy'n ffurfio rhannau o'r cam gyflawni buddion hirdymor i unigolion ac atal derbyniadau ysbyty dilynol.
- Ceir ymrwymiad strategol clir i ddiwallu anghenion pobl yn y tymor hwy.

13 Nodwyd y meysydd canlynol i'w datblygu:

- Dadansoddi data presennol i alluogi'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd i feddu ar well dealltwriaeth o'r galw posibl yn y tymor canolig a hwy.
- Dadansoddi data presennol i feddu ar well dealltwriaeth o effaith tymor hwy y cam ar y bobl sy'n derbyn y gwasanaeth.
- Ystyried ffyrdd newydd ac arloesol o ymdrin â'r risgiau a'r cyfleoedd a ddaw i'r amlwg a diwallu angen yn fwy effeithlon ac effeithiol, er enghraifft datblygiadau technolegol.

[2] Gweler Atodiad 1

## Mae atal yn ganolog i’r cam hwn, ond oherwydd y galw cynyddol a’r pwysau ar adnoddau, mae’n bosibl y bydd angen dulliau eraill o wireddu buddion ataliol cynharach

### Yr hyn y chwiliwyd amdani

14 Chwiliwyd am dystiolaeth o:

- dealltwriaeth drylwyr o natur y broblem a’r math o broblem y gallai’r cam helpu i’w atal rhag codi neu waethygu;
- adnoddau a ddyrannwyd i sicrhau y cyflawnir buddion ataliol; a
- threfniadau monitro ac adolygu effeithiolrwydd y cam wrth atal problemau rhag codi neu waethygu.

15 Llywiwyd ein harchwiliad hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer ‘atal’ a nodwyd gennym ac a ddefnyddiwyd yn rhan o’r archwiliad hwn.[3]

### Yr hyn a ganfuwyd

16 Nodwyd y cryfderau canlynol:

- Mae’r cam wedi’i lunio i gyflawni effeithiau tymor byr trwy atal derbyniadau diangen i’r ysbyty a hwyluso rhyddhau amserol o’r ysbyty.
- Mae agweddau ar y cam wedi’u llunio ar hyn o bryd hefyd i ymgysylltu’n gynharach, er enghraifft, atal cwympiadau a gwahanol raglenni treialu â’r nod o sicrhau’r buddion ataliol mwyaf.

17 Nodwyd y meysydd canlynol i’w datblygu:

- Mae lle i ddeall yn well a dadansoddi’r data sydd ar gael ynghylch atal, gan fod hyn wedi’i danddatblygu ar hyn o bryd, ond mae’r systemau gwahanol a ddefnyddir mewn Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhwystr.
- Parhau i archwilio cysylltiadau ag amrywiaeth ehangach o bartneriaid, gan gynnwys Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a Meddygon Teulu i ymgysylltu â phobl yn gynharach i atal derbyniadau diangen i’r ysbyty.
- Ystyried yr achosion posibl sydd wrth wraidd derbyniadau diangen i’r ysbyty, er enghraifft, y bobl hynny sy’n byw ar eu pennau eu hunain, neu pam mae’r data yn dangos bod derbyniadau wedi cynyddu o ran y boblogaeth gyfan, ond wedi gostwng ymhlith pobl 65 oed neu hŷn â chyflwr cronig.

[3] Gweler Atodiad 1

## Mae'r cam yn cyd-fynd ar lefel uchel ac mewn modd integredig ag amcanion llesiant perthnasol y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd, ond gall gwybodaeth ehangach o'r diffiniad o integreiddio yn ôl y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol helpu i wireddu buddion gweithredol

### Yr hyn y chwiliwyd amdani

18 Chwiliwyd am dystiolaeth o ystyriaeth o:

- sut y gallai'r cam hwn gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol;
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant a blaenoriaethau ehangach y Cyngor; a
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill.

19 Llywiwyd ein harchwiliad hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'integredig' a nodwyd gennym ac a ddefnyddiwyd yn rhan o'r archwiliad hwn.[4]

### Yr hyn a ganfuwyd

20 Nodwyd y cryfderau canlynol:

- Mae cyd-fynd amlwg rhwng amcanion llesiant y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd y mae'r cam hwn yn cyfrannu'n uniongyrchol atynt.

21 Nodwyd y meysydd canlynol i'w datblygu:

- Nid ystyriwyd y Ddeddf yn ysgogydd ar gyfer y cam hwn ac felly gellid gwella'r ddealltwriaeth o egwyddor integreiddio yn fwy.
- Ystyried cyfleoedd i gyfuno integreiddio strategol â chyflawniad gweithredol y cam yn fwy.
- Datblygu dealltwriaeth gyfrannol o'r data ynghylch effaith y cam ar gyfer y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd.

[4] Gweler Atodiad 1

## Mae cydweithredu â'r Bwrdd Iechyd yn ganolog i'r cam hwn a cheir enghreifftiau da o gydweithredu mewnol ac allanol effeithiol, fodd bynnag ceir cyfleoedd i gryfhau cysylltiadau â phartneriaid ehangach

### Yr hyn y chwiliwyd amdani

22 Chwiliwyd am dystiolaeth bod y Cyngor:

- wedi ystyried sut y gallai weithio gydag eraill i gyflawni'r cam (i gyflawni ei amcanion llesiant, neu gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion llesiant);
- yn cydweithredu'n effeithiol i gyflawni'r cam; ac
- yn monitro ac yn adolygu a yw'r cydweithredu yn ei helpu neu'n helpu ei randdeiliaid i gyflawni amcanion llesiant.

23 Llywiwyd ein harchwiliad hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'cydweithredu' a nodwyd gennym ac a ddefnyddiwyd yn rhan o'r archwiliad hwn.[5]

### Yr hyn a ganfuwyd

24 Nodwyd y cryfderau canlynol:

- Mae cyflawniad y cam hwn yn cynnwys dull amlddisgyblaeth â staff o'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd.
- Mae rhai meysydd gwasanaeth eraill y Cyngor, gan gynnwys yr adran dai, yn cydweithredu i helpu i gyflawni'r cam ac mae'r Cyngor wedi ffurfio cysylltiadau â sefydliadau'r trydydd sector a phartneriaid allanol eraill.

25 Nodwyd y meysydd canlynol i'w datblygu:

- Mae gwahanol ffyrdd o weithio rhwng iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn golygu nad yw'r cydweithredu yn esmwyth bob amser.
- Ceir aneffeithlonrwydd yn y broses atgyfeirio i'r Tîm Adnoddau Cymunedol sy'n awgrymu y gellid gwella'r cydweithredu.
- Er gwaethaf yr ymdrechion a wnaed, mae angen cydnabyddedig yn parhau i wella cydweithredu â rhai rhanddeiliaid er mwyn helpu i wireddu buddion ataliol pellach (gan gynnwys meddygon teulu, Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (Ymddiriedolaeth y GIG) a Nyrsys Ardal).
- Ystyried cyfleoedd i ddysgu oddi wrth sefydliadau eraill sydd wedi cael profiad o heriau tebyg.

[5] Gweler Atodiad 1

## Cesglir sylwadau ynghylch profiad pobl o’r Tîm Adnoddau Cymunedol fel mater o drefn, ond mae rhagor o le i ystyried sut y gall cynnwys rhanddeiliaid ehangach ddylanwadu ar gynllun a chyflawniad y cam yn y tymor canolig a hir

### Yr hyn y chwiliwyd amdani

26 Chwiliwyd am dystiolaeth bod y Cyngor wedi:

- nodi pwy y mae angen eu cynnwys wrth gynllunio a chyflawni’r cam;
- cynnwys rhanddeiliaid allweddol mewn modd effeithiol wrth gynllunio a chyflawni’r cam;
- defnyddio canlyniadau’r ymgysylltu i lunio datblygiad a chyflawniad y cam; a
- cheisio dysgu gwersi a gwella’i ddull o ymgysylltu.

27 Llywiwyd ein harchwiliad hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer ‘cymryd rhan’ a nodwyd gennym ac a ddefnyddiwyd yn rhan o’r archwiliad hwn.[6]

### Yr hyn a ganfuwyd

28 Nodwyd y cryfderau canlynol:

- Mae’r drafodaeth ‘Beth sy’n bwysig’ sy’n rhan o’r gwaith o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 yn ganolog i gyflawniad y cam hwn.
- Gofynnir i ddefnyddwyr gwasanaeth ynghylch eu profiad o’r Tîm Adnoddau Cymunedol fel mater o drefn, a gwelwyd tystiolaeth o safbwyntiau cadarnhaol.

29 Nodwyd y meysydd canlynol i’w datblygu:

- Ystyried sut y gall cyrff cyhoeddus a sefydliadau eraill fod yn rhan er mwyn helpu i ddeall achosion, yn ogystal â symptomau. derbyniadau diangen i’r ysbyty, er mwyn cynllunio a chyflawni camau i fynd i’r afael â’r achosion sylfaenol hynny.
- Ystyried ffyrdd y gall y cyhoedd gyfrannu at gynllun y cam yn y tymor canolig a hir.
- Ystyried ffyrdd o addysgu’r cyhoedd ynghylch sut y gallant barhau i fod yn annibynnol.
- Ystyried cryfhau’r cysylltiadau â theuluoedd a/neu gofalwyr i sicrhau cynlluniau wrth gefn effeithiol i’r rhai sydd â risg o gael eu derbyn i’r ysbyty.

[6] Gweler Atodiad 1

# Rhan Dau: Ymateb y Cyngor

30 Ar ôl i'n gwaith maes ddod i ben, fe wnaethom gyflwyno ein canfyddiadau i'r Cyngor mewn gweithdy ym mis Hydref 2019. Roedd uwch swyddogion Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor a swyddogion o'r Bwrdd Iechyd Prifysgol yn bresennol yn y gweithdy hwn. Yn y gweithdy hwn dechreuodd y Cyngor ystyried ei ymateb i'n canfyddiadau ac o ganlyniad i'r trafodaethau yn y gweithdy, a rhagor o fyfyrio ar ein canfyddiadau, mae'r Cyngor wedi datblygu'r camau canlynol.

31 Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor wrth weithredu'r camau hyn ac i ba raddau y maent yn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn ein canfyddiadau.

# Atodiad 1

## Tîm Adnoddau Cymunedol – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Canlyniadau Archwiliad SAC – Cynllun Gweithredu 2019-20

| | |
|---|---|
| **Amcanion Llesiant Corfforaethol:** | Cefnogi dinasyddion i barhau yn annibynnol a gwella'u llesiant. |
| **Cam:** | Gweithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (y Bwrdd Iechyd) i atal derbyniadau diangen i'r ysbyty a hwyluso rhyddhau amserol. |
| **Swyddog Arweiniol:** | Joanne Williams, Pennaeth Gwasanaethau i Oedolion, Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **Dadansoddiad o gymhwysiad yr egwyddor datblygu cynaliadwy:** | Ceir enghreifftiau sy'n dangos sut y mae'r Cyngor wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ymarferol, fodd bynnag bydd angen iddo ystyried sut y gall ateb heriau disgwyliedig yn y tymor hwy. |

| Camau Gwella | Meini Prawf Llwyddiant | Amserlen | Unigolyn sy'n gyfrifol | Cyllid |
|---|---|---|---|---|
| **Y Tymor Hir** | | | | |
| 1. Datblygu systemau i gasglu a dadansoddi data yn effeithiol i gynorthwyo â rhagfynegi a darogan galw a thueddiadau o ran gwasanaethau. | Mae systemau ar waith ac yn cael eu dadansoddi fel mater o drefn i gynorthwyo â darogan y galw a'r tueddiadau ar gyfer y gwasanaeth a llywio cynllun y gwasanaeth. | Mawrth 2020 | Joanne Milliken<br>Trudy Conway<br>Owain Sweeting | Amherthnasol |
| 2. Ymchwilio ac ystyried cyfleoedd i fuddsoddi mewn technoleg gynorthwyol i gyflawni buddion tymor canolig a hir i unigolion. | Mae'r ymchwil wedi'i gwblhau ac mae technoleg gynorthwyol briodol wedi'i nodi a'i phrynu | Mawrth 2020 | Joanne Milliken<br>Trudy Conway | Cyllid Gweddnewid |
| **Integredig** | | | | |
| 1. Datblygu systemau i gasglu a dadansoddi data yn effeithiol i gynorthwyo â rhagfynegi a darogan galw a thueddiadau o ran gwasanaethau. | Mae systemau ar waith ac yn cael eu dadansoddi fel mater o drefn i gynorthwyo â darogan y galw a'r tueddiadau ar gyfer y gwasanaeth a llywio cynllun y gwasanaeth. | Mawrth 2020 | Joanne Milliken<br>Trudy Conway<br>Owain Sweeting | Amherthnasol |
| 2. Datblygu dealltwriaeth ehangach ar draws yr Awdurdod o'r hyn a olygir gan 'Integreiddio' yn ôl diffiniad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. | Deellir integreiddio yn glir o fewn cyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac mae wedi'i ymwreiddio mewn cynlluniau strategol a gweithredol. | Mehefin 2020 | Ros Roberts<br>Jo Williams | Amherthnasol |
| **Cynnwys** | | | | |
| 1. Datblygu systemau i gasglu a dadansoddi data yn effeithiol i gynorthwyo â rhagfynegi a darogan galw a thueddiadau o ran gwasanaethau. | Mae systemau ar waith ac yn cael eu dadansoddi fel mater o drefn i gynorthwyo â darogan y galw a'r tueddiadau ar gyfer y gwasanaeth a llywio cynllun y gwasanaeth. | Mawrth 2020 | Joanne Milliken<br>Trudy Conway<br>Owain Sweeting | Amherthnasol |

| Camau Gwella | Meini Prawf Llwyddiant | Amserlen | Unigolyn sy'n gyfrifol | Cyllid |
|---|---|---|---|---|
| 2. Gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau, cymunedau a dinasyddion eraill i ymwreiddio Cymunedau Tosturiol a Rhwydweithiau Llesiant Integredig. | Mae Cymunedau Tosturiol a Rhwydweithiau Integredig wedi'u sefydlu yng ngogledd y Fwrdeistref. | Mawrth 2020 | Jo Williams<br>David Llewellyn<br>Alison Gough | Cyllid gweddnewid wedi'i gadarnhau |
| **Cydweithredol** | | | | |
| 1. Cymryd rhan mewn a chyfrannu at adolygiad Partneriaeth Strategol Oedolion ledled Gwent o systemau a phrosesau atgyfeirio sydd ar waith ar hyn o bryd. | Adolygiad wedi'i gwblhau a chytunwyd ar symud i un system atgyfeirio ac mae hyn ar waith. | Hydref 2020 | Jo Williams | Anhysbys |
| 2. Parhau i chwilio am arfer da a gwersi a'u rhannu ar draws y rhanbarth ag amrywiaeth eang o sefydliadau. | Mae rhannu gwersi a ddysgwyd wedi arwain yn weithredol at ddylanwadu ar arfer da, ffyrdd newydd o weithio a hyrwyddo newid. | Yn parhau | Jo Williams<br>Joanne Milliken<br>Trudy Conway | Amherthnasol |
| 3. Chwilio am gysylltiadau a'u harchwilio ag amrywiaeth ehangach o bartneriaid a sefydliadau i weithio ar atal derbyniadau diangen i'r ysbyty. | Mae prosiectau a chyfleoedd newydd wedi'u nodi ac mae cyllid priodol wedi'i gadarnhau. | Gorffennaf 2020 | Joanne Milliken<br>Trudy Conway | Amherthnasol |
| **Atal** | | | | |
| 1. Chwilio am gysylltiadau a'u harchwilio ag amrywiaeth ehangach o bartneriaid a sefydliadau i weithio ar atal derbyniadau diangen i'r ysbyty. | Mae prosiectau a chyfleoedd newydd wedi'u nodi ac mae cyllid priodol wedi'i gadarnhau. | Gorffennaf 2020 | Joanne Milliken<br>Trudy Conway | Amherthnasol |
| 2. Datblygu systemau i gasglu a dadansoddi data yn effeithiol i gynorthwyo â rhagfynegi a darogan galw a thueddiadau o ran gwasanaethau. | Mae systemau ar waith ac yn cael eu dadansoddi fel mater o drefn i gynorthwyo â darogan y galw a'r tueddiadau ar gyfer y gwasanaeth a llywio cynllun y gwasanaeth. | Mawrth 2020 | Joanne Milliken<br>Trudy Conway<br>Owain Sweeting | Amherthnasol |

# Atodiad 2

## Dangosyddion Cadarnhaol o'r Pum Ffordd o Weithio

Mae'r tabl isod yn nodi 'dangosyddion cadarnhaol' ar gyfer pob un o'r pum ffordd o weithio yr ydym wedi'u nodi ac y byddwn yn eu defnyddio er mwyn helpu i lywio ein hasesiadau o'r graddau y mae cyrff yn cymhwyso'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy. Nid ydym yn bwriadu defnyddio'r dangosyddion fel 'rhestr wirio'. Dylid eu hystyried yn 'ddangosyddion' a fydd yn ein helpu i gyrraedd casgliadau, yn hytrach na 'phenderfynyddion' o i ba raddau y mae corff yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynliadwy wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant.

Arddangosyn 2: Dangosyddion Cadarnhaol o'r Pum Ffordd o Weithio

| Beth fyddai'n dangos bod corff yn cymhwyso'r ffordd hirdymor o weithio yn llawn? |
|---|
| • Ceir dealltwriaeth glir o ystyr 'hirdymor' yng nghyd-destun y Ddeddf.<br>• Mae wedi cynllunio'r cam i gyflawni'r amcan(ion) llesiant a chyfrannu at ei weledigaeth hirdymor.<br>• Mae wedi cynllunio'r cam i gyflawni buddion tymor byr a chanolig, sydd wedi'u cydbwyso â'r effaith yn y tymor hir (o fewn cyd-destun y prosiect).<br>• Mae wedi cynllunio'r cam ar sail dealltwriaeth soffistigedig o anghenion a phwysau presennol ac yn y dyfodol, gan gynnwys dadansoddi tueddiadau yn y dyfodol.<br>• O ganlyniad i hyn, ceir dealltwriaeth gynhwysfawr o'r risgiau a'r cyfleoedd presennol ac yn y dyfodol.<br>• Mae adnoddau wedi'u dyrannu i sicrhau y cyflawnir buddion hirdymor yn ogystal â rhai tymor byr.<br>• Ceir pwyslais ar gyflwyno canlyniadau, a nodir cerrig milltir/camau datblygu pan gaiff canlyniadau eu cyflawni yn y tymor hir.<br>• Mae'n agored i ffyrdd newydd o wneud pethau a allai helpu i gyflawni buddion yn y tymor hirach.<br>• Mae'n gwerthfawrogi gwybodaeth ac yn canlyn dulliau wedi'u seilio ar dystiolaeth. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cymhwyso'r ffordd ataliol o weithio yn llawn?** |
| • Mae'r corff yn ceisio deall yr achosion sydd wrth wraidd problemau er mwyn gallu mynd i'r afael â chylchoedd negyddol a heriau ar draws cenedlaethau.<br>• Mae'r corff yn gweld heriau o safbwynt y system gyfan, gan adnabod a gwerthfawrogi'r buddion hirdymor y gallant eu cyflwyno i bobl a lleoedd.<br>• Mae'r corff yn dyrannu adnoddau i gamau ataliol sy'n debygol o gyfrannu at well canlyniadau, a gwell defnydd o adnoddau yn y tymor hir, hyd yn oed pan fo cyfyngiad posibl ar y gallu i ddiwallu rhai o'r anghenion tymor byr.<br>• Ceir trefniadau gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd sy'n cydnabod gwerth camau ataliol ac sy'n derbyn gostyniadau tymor byr mewn perfformiad ac adnoddau wrth ganlyn y gwelliannau disgwyliedig i'r canlyniadau a'r defnydd o adnoddau. |

| Beth fyddai'n dangos bod corff yn defnyddio dull 'integredig'? |
| --- |
| • Mae unigolion ar bob lefel yn deall eu cyfraniad i gyflawniad y weledigaeth a'r amcanion llesiant.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn deall yr hyn y mae gwahanol rannau'r sefydliad yn ei wneud ac yn ceisio cyfleoedd yn rhagweithiol i weithio ar draws ffiniau sefydliadol. Caiff hyn ei efelychu yn ei waith â chyrff cyhoeddus eraill.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn cydnabod y dibyniaethau ar draws y sefydliad i gyflawni'r uchelgais a'r amcanion.<br>• Ceir diwylliant agored o rannu gwybodaeth.<br>• Ceir dealltwriaeth ddatblygedig o sut y mae'r amcanion llesiant a'r camau i'w cyflawni yn effeithio ar gyrff eraill y sector cyhoeddus.<br>• Mae unigolion yn gweithio'n rhagweithiol ar draws ffiniau sefydliadol i gyflawni'r cyfraniad mwyaf posibl ar draws y nodau llesiant ac i leihau'r effeithiau negyddol gymaint â phosibl.<br>• Mae trefniadau llywodraethu, strwythurau a phrosesau yn cefnogi hyn, ac ymddygiad hefyd. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cydweithredu'n effeithiol?** |
| • Mae'r corff yn canolbwyntio ar le, cymuned a chanlyniadau yn hytrach na ffiniau sefydliadol.<br>• Mae gan y corff ddealltwriaeth o amcanion partneriaid a'u cyfrifoldebau, sy'n helpu i lywio gweithgareddau cydweithredol.<br>• Mae gan y corff berthynas gadarnhaol ac aeddfed â rhanddeiliaid, a chaiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Mae'r corff yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi cyfraniadau'r holl bartneriaid.<br>• Mae'r corff yn ceisio sefydlu prosesau a ffyrdd o weithio cyfrannol, pan fo hynny'n briodol. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cynnwys pobl yn effeithiol?** |
| • Meddu ar ddealltwriaeth o bwy sydd angen bod yn gysylltiedig a pham.<br>• Myfyrio ar ba mor dda yw'r ddealltwriaeth o anghenion a heriau y bobl hynny ar hyn o bryd.<br>• Gweithio mewn modd cydgynhyrchiol, gweithio gyda rhanddeiliaid i gynllunio a chyflawni.<br>• Ystyried barn rhanddeiliaid yn ffynhonnell wybodaeth hollbwysig a fydd yn helpu i gyflawni gwell canlyniadau.<br>• Sicrhau y cynrychiolir yr amrywiaeth lawn o randdeiliaid a'u bod yn gallu cymryd rhan.<br>• Bod â pherthynas aeddfed o ymddiriedaeth â'i randdeiliaid, lle ceir dialog parhaus a chaiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Sicrhau bod rhanddeiliaid yn deall effaith eu cyfraniad.<br>• Gofyn am adborth gan randdeiliaid allweddol a defnyddio hyn i helpu i ddysgu a gwella. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru